Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mawrth

Disgrifiad o'r modiwl

Yn y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn mynd i'r afael â materion seicolegol cyffredin mewn chwaraeon ac ymarfer corff, ac yn dysgu i adnabod sefyllfaoedd lle y gellir cymhwyso theori seicolegol at achosion go iawn. Caiff crynodebau ymchwil eu defnyddio ochr yn ochr ag astudiaethau achos er mwyn helpu myfyrwyr i ymgysylltu â llenyddiaeth ddiweddar. Mae'r modiwl yn cynnwys rhai o'r prif bynciau ym maes seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff, sef: pryder; hunanhyder; canolbwyntio; dynameg grŵp; seicoleg anafiadau; dibyniaeth ar ymarfer corff; a'r hyfforddiant sgiliau meddwl a ddefnyddir gan seicolegwyr. Mae'r modiwl hwn yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb cyffredinol mewn seicoleg mewn chwaraeon ac ymarfer corff, neu sy'n gweithio yn y maes mewn rolau megis hyfforddi ymarfer corff neu hyfforddi chwaraeon.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r fanyleb gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes sy'n gysylltiedig â chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu seicoleg, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol
- diddordeb brwd yn yr egwyddorion seicolegol sy'n sail i chwaraeon ac ymarfer corff
- profiad o helpu eraill i ddysgu, e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu arfarnu
- parodrwydd i ddefnyddio technolegau ar-lein.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o seicoleg chwaraeon gymhwysol, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5